# CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR 9/5/24

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Beca Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, R.Glyn Daniels, Anwen J.Davies, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, R.Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Linda Ann Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Gwenan Roberts (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. CADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am y gadeiryddiaeth, sef y Cynghorydd Beca Roberts a'r Cynghorydd Beth Lawton.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Beca Roberts yn Gadeirydd am 2024/25.**

Darllenodd a llofnododd y Cynghorydd Beca Roberts ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2024/25 ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

## 2. IS-GADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am yr is-gadeiryddiaeth, sef y Cynghorydd Ioan Thomas a'r Cynghorydd Elfed P.Roberts.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Ioan Thomas yn Is-gadeirydd am 2024/25.**

Darllenodd y Cynghorydd Ioan Thomas ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2024/25 ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes, Kim Jones, John Pughe a Rob Triggs.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2024 fel rhai cywir.

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â theulu'r Cyn-gynghorydd a Chadeirydd y Cyngor hwn yn 1998-99, John E.James, a fu farw yn ddiweddar, a rhoddwyd teyrnged iddo gan y Cynghorydd Elwyn Edwards.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd bod sawl aelod o'r Cyngor wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a dymunwyd i bawb ohonynt adferiad llwyr a buan.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Kim Jones ar enedigaeth mab, Caio Gwyn.

Dymunwyd yn dda i holl blant ac ieuenctid Gwynedd sydd ar eu ffordd i Eisteddfod yr Urdd ddiwedd y mis.

## 7. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 8. CWESTIYNAU

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams

A fydd Cyngor Gwynedd yn cyflwyno sylwadau cryf i gael Trafnidiaeth Cymru i newid eu meddyliau ynghylch tynnu pedwar trên yn ôl, dau bob ffordd rhwng Machynlleth a Phwllheli, pan fydd eu Hamserlenni newydd ar gyfer Rheilffordd Arfordir y Cambrian yn cael eu cyflwyno ym mis Rhagfyr 2024?

Bydd hyn yn cael effaith ddifrifol ar bobl leol sy'n teithio i'r gwaith ac adref, ac ar bobl leol ac ymwelwyr sy'n teithio pellter hir ar y rheilffordd.

A wnaeth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried bod rheilffordd Arfordir y Cambrian wedi cau am dri mis yn ystod y tair blynedd ddiwethaf i waith gael ei wneud ar Draphont Abermaw heb unrhyw drenau yn rhedeg a bod y gwasanaeth bws dros dro yn annibynadwy?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Diolch am y cwestiwn. Yn amlwg rwy'n deall y pryder lleol ynglŷn â hyn, ac fel y gwelwch o'r ateb sydd wedi cael ei ddarparu, mi dderbyniodd Arweinydd y Cyngor ohebiaeth gan

James Price, Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru ar y 10fed o Ebrill 2024 ynghylch y newidiadau yma ac mi wnes i ymateb ar y 25ain o Ebrill yn gofyn am gadarnhad o'r statws ac yn nodi'r pryderon lleol. Hyd yn hyn, nid oes ymateb wedi dod i hynny, ond rwy'n mawr obeithio y bydd yna newid, ac y bydd y teithiau trên yma'n cael eu hail-strwythuro.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams**

A fydd yr Aelod Cabinet yn cysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet Dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, Ken Skates, AS, i bwyntio allan nad yw'r 32 o ddiwrnodau sydd ar gael i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amserlen newydd yn ddigonol?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Rwy'n hapus iawn i fynd ar ôl hynny ac i wneud y pwynt yn sicr.

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Beth yw'r diweddaraf ar brosiect Canolfan Lleu, yr hwb iechyd a lles ym Mhenygroes? Pryd fydd yna unrhyw ddatblygiad a gwybodaeth i'r cyhoedd?

**Ateb – Aelod Cabinet Oedolion, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

Hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd am y cwestiwn. Mae'n hynod bwysig cael aelod lleol yn codi mater sy'n berthnasol i'n cymunedau ni - yn yr achos yma Dyffryn Nantlle a thrigolion Gwynedd yn ehangach. Fel mae'n nodi yn yr ateb ysgrifenedig, Grŵp Cynefin sydd yn arwain ar y cynllun arloesol yma, ac felly roeddwn i'n teimlo ei bod yn briodol i ni gysylltu â Grŵp Cynefin. Mae'r ymateb ysgrifenedig yn cynnwys y wybodaeth a dderbyniwyd yn ôl gan y Grŵp, yn uniongyrchol gan y Prif Weithredwr, Melville Evans - a hoffwn achub ar y cyfle hwn i'w longyfarch ar y swydd a nodi ein bod yn edrych ymlaen at gydweithio ag ef. Felly mae ei sylwadau ef ynghlwm yn yr ateb ysgrifenedig ac mae yna nifer o ffeithiau yna ac rwy'n meddwl mai teg fyddai i mi ddarllen yr ateb ysgrifenedig yn llawn.

"Mae Canolfan Lleu yn brosiect sy'n dod â phartneriaid at ei gilydd er mwyn datblygu hwb iechyd a lles ym Mhenygroes. Arweinir y prosiect gan Grŵp Cynefin, gyda chyd-weithio agos yn digwydd drwy'r Bwrdd Prosiect gyda'r Cyngor, Y Bwrdd Iechyd a Theatr Bara Caws. Y bwriad yw y bydd y datblygiad newydd yn cynnig cymysgedd cynhwysfawr o wasanaethau iechyd, tai, mannau cymunedol a diwylliannol a fydd yn helpu pobl yn Nyffryn Nantlle a thu hwnt.

Bu oedi ddiwedd y flwyddyn a'r penderfyniad i beidio parhau hefo pryniant y feithrinfa bresennol, ond ym mis Ionawr 2024 bu i'r Bwrdd Prosiect gomisiynu adolygiad dichonoldeb o effaith hynny ar y dyluniad. Cynhaliwyd dau weithdy er mwyn archwilio opsiynau i wneud y gorau o'r tir cysylltiedig, ac fe gafodd Cynllun newydd ei gymeradwyo gan y Bwrdd Prosiect ar y 1af o Fai, 2024. Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn amcangyfrif costau ynghyd ag asesiad cychwynnol o'i fforddiadwyedd yn erbyn y grantiau sydd wedi eu cydnabod hyd yma ar gyfer y prosiect. Bwriedir cwblhau'r asesiad erbyn mis Mehefin 2024.

Y camau nesaf yn dilyn hyn fydd datblygu'r dyluniad ymhellach ac yna paratoi'r Achos Busnes Amlinellol er mwyn ei gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd Grŵp Cynefin yn edrych i gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol, fel y rhai a gynhaliwyd yn llwyddiannus yr haf diwethaf, i roi diweddariad ar y prosiect i drigolion a'r gymuned yn ehangach.

Yn amodol ar gymeradwyaeth, mae Grŵp Cynefin yn gobeithio bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn yn 2026."

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Am faint rhagor bydd Cyngor Gwynedd yn gallu fforddio cadw'r arian sydd wrth gefn i'r prosiect yma hefo gymaint o wasanaethau eraill y Cyngor yn gwegian, a hefyd fedrwch chi sicrhau y bydd yr arian yn cael ei wario ar Brosiect Lleu sydd eisoes gymaint ar ei hol hi?

**Ateb – Aelod Cabinet Oedolion, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

Cwestiwn atodol gwych iawn yn yr hinsawdd sydd ohoni. Mae cynlluniau mawr sylweddol fel Canolfan Lleu, Pen-y-Berth, ayyb, yn cael cefnogaeth a blaenoriaeth ar lefel uchel iawn o ran y Cyngor hwn, e.e. yr aelodau ar y Bwrdd ydi'r Aelod Cabinet Tai, fi fel yr Aelod Cabinet Oedolion a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel y gwelwch, rydym ni'n gosod y cynlluniau yma ar lefel uchel ac yn flaenoriaeth uchel iawn i ni. Mae gweithio mewn partneriaeth hefo cymdeithasau tai, y Bwrdd Iechyd, ayyb, hefyd yn flaenoriaeth i ni, ac mae yna fwy ynglŷn â hynny i'w gael yng Nghynllun y Cyngor yn gosod ein bwriad. O ran addewid, does gen i ddim pelen risial, felly ni allaf ragweld y dyfodol, ond os yw'n rhywfaint o gysur, mae'r hyn rydw i wedi ddweud am flaenoriaethau uwch swyddogion y Cyngor o gymorth. Hefyd, wrth gwrs, mae'r cynllun yma yn ein Cynllun Asedau diweddar lle rydym ni wedi nodi £3.5m ar gyfer hyn, ac mae hwn yn gynllun asedau 10 mlynedd, felly dyna'r unig ymrwymiad y gallaf ei roi ar hyn o bryd.

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried:

-bod gan y Cyngor hwn amcanion hir dymor i daclo problemau llifogydd a newid hinsawdd;

-bod sawl aelwyd fel un o fewn fy ward wedi dioddef dinistr i'w cartref o ganlyniad i lifogydd na ragwelwyd (flash floods) a diffyg cyflenwad bagiau tywod;

-bod rhai unigolion yn rhy fregus i amddiffyn eu cartref efo bagiau tywod;

-bod gan y Cyngor linell gymorth 24awr ond nad oes darpariaeth bagiau tywod i'w cael dros 24 awr;

-na all rai unigolion fforddio prynu bagiau tywod;

A yw'r Cyngor hwn am adolygu'r ddarpariaeth o fagiau tywod ar gyfer y cyhoedd mewn materion o argyfwng?

**Ateb – Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

Diolch am y cwestiwn. Mae'n gwestiwn amserol iawn o gofio ein bod yn y broses o ddarparu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd. Mae'r ymgynghoriad ar y drafft newydd wedi dod i ben yn ddiweddar iawn a bydd unrhyw sylwadau yn cael eu hystyried cyn gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r Strategaeth. Mae'r ateb ysgrifenedig i'r cwestiwn wedi ei rannu hefo chi ymlaen llaw, ond mi gymeraf y cyfle i bwysleisio ambell bwynt.

Mae gan yr Adran ddyletswydd i gael polisi amddiffyn eiddo rhag llifogydd sy'n deillio o'r rhwydwaith priffyrdd. Golyga hyn wasanaeth 24 awr gyda gangiau ar ddyletswydd i ymateb a dosbarthu bagiau tywod fel yn briodol. Os yw adnoddau'n caniatáu, mi fyddent hefyd yn dosbarthu i drigolion sy'n dioddef o lifogydd sydd ddim yn deillio o'r priffyrdd. Tra bo rhywun yn cydymdeimlo â phawb sydd wedi dioddef o ganlyniad i lifogydd, yn anffodus fe ddigwyddodd yr achos penodol o lifogydd y cyfeiria'r Aelod ato ar noson brysur pan oedd y gangiau i gyd allan yn delio gyda llifogydd eraill, ac nid oedd cyflenwad ychwanegol o fagiau tywod ar gael chwaith. Mae sefyllfaoedd fel hyn yn mynd i godi yn fwy aml o ganlyniad i newid hinsawdd ac mi fydd yn fwy pwysig byth i gymunedau weithio gyda'r Cyngor i geisio amddiffyn eu hunain. Mae hwn yn un o amcanion y Strategaeth newydd.

**Cwestiwn atodol Y Cynghorydd Rhys Tudur**

Gan ystyried bod ein Cynllun Llifogydd yn ymwneud â phob math o eiddo, ar lonydd preifat neu beidio, a bod nifer uchel o eiddo ar lonydd preifat, oes gan y Cyngor fwriad i wella ei ddarpariaeth o fagiau tywod i eiddo sydd ar lonydd preifat?

**Ateb – Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

Mi fyddai'n braf medru gwneud hynny, ac mae cyfle i adolygu ein trefniadau wrth gwblhau'r Strategaeth. Mi fyddwn i hefyd yn rhoi rhybudd iechyd oherwydd, yn anffodus, mi fyddwn yn ddibynnol ar y gyllideb a'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth.

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

O feddwl bod canfyddiad ymysg trigolion Llŷn ac Eifionydd (a Gwynedd yn ehangach o bosib') bod y gyfundrefn gynllunio yn rhoi rhwydd hynt i ganiatáu datblygiadau tai preswyl mawr gan gymdeithasau tai a datblygwyr preifat (lle nad yw'r angen lleol yn rhyw eglur iawn yng ngolwg pobl leol) a'i bod ar yr un pryd yn taflu pob rhwystr ar ffordd datblygiadau bach (lle mae'r angen lleol yn gwbl eglur i bawb), ac o ystyried bod y canfyddiad hwn, at ei gilydd, yn adlewyrchiad cywir o weithrediad y gyfundrefn gynllunio yn ein hardal yn ystod y blynyddoedd diweddar yma (lle mai prin iawn yw'r datblygiadau mawr anghydnaws sydd wedi eu gwrthod ond lle gosodir baich darparu adroddiadau costus ar y sawl y mae arno eisiau codi tŷ iddo'i hun pan fo ganddo obaith gwneud hynny o gwbl), oes yna ewyllys ac awydd i chwyldroi'r gyfundrefn druenus hon?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Diolch am y cwestiwn. Mae yna ateb ysgrifenedig eithaf cynhwysfawr wedi ei ddarparu, felly wnâi ddim ei ddarllen, ond nodi, o ran y gofynion ar ymgeiswyr a datblygwyr, mae'r gofynion ar gyfer y math o wybodaeth a thystiolaeth sydd ei angen wedi cynyddu yn sylweddol dros y blynyddoedd, a hynny er mwyn cwrdd â gofynion ychwanegol yn deillio o ddeddfau a pholisïau gan Lywodraeth Cymru. Wrth gwrs, mae'r gofynion yma yn effeithio ar bob ymgeisydd, yn fawr a bach. Mae penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu gwneud ar rinweddau unigol y cais hwnnw, a hynny yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Wrth gwrs, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd a fydd yn gyfle i edrych ar y polisïau yma, a bydd yna gyfle i bob aelod o'r Cyngor hwn fod yn rhan o'r broses honno.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

Ydi cyfundrefn o'r fath, sy'n ffafrio datblygiadau mawr gan ddatblygwyr mawr, ond sy'n rhwystro, neu'n ddiystyrllyd o angen lleol, organig ar lefel un teulu, neu ychydig deuluoedd, yn deg?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Mae'n debyg mai'r cwestiwn rydych chi'n ei ofyn ydi oes yna ewyllys ac awydd i chwyldroi'r gyfundrefn yn seiliedig ar ganfyddiad. Wel, os oes yna ffeithiau a thystiolaeth gadarn yn dangos bod angen newid y drefn, a bod y newid yna o fewn cwmpas yr awdurdod neu'r Cyngor, yna mae lle i wneud hynny. Wrth gwrs, mae cymaint o'r drefn gynllunio yn cael ei harwain gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, ac os mai dyna'r achos, ac os oes angen newid yn y fan honno, mae angen gwneud gwaith a lobio i newid yn y fan honno.

## 9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth adroddiad yn cyflwyno'r adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Mynegodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol ei phryder bod colli un o'r cadeiryddiaethau craffu yn gwanhau'r Fforwm Craffu oherwydd y byddai holl aelodau'r fforwm, namyn un, yn aelodau o un parti. Holodd hefyd pam na allai cadeirydd lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod o'r Fforwm Craffu.

**PENDERFYNWYD**

1. **Mabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2024/25 fel a nodir isod, ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a'r uwch gyflogau a nodir.**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 12 | 6 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 12 | 5 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 12 | 5 | 1 | 18 |
| Llywodraethu ac Archwilio | 8 | 4 | 0 | 12 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 10 | 4 | 1 | 15 |
| Cynllunio | 10 | 4 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog /Cyffredinol | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Iaith | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 5 | 2 | 0 | 7 |
| **Nifer y seddau** | **99** | **45** | **4** | **148** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 7 | 4 | 0 | 11 |
| CYSAG | 5 | 2 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **115** | **53** | **5** | **173** |

**Uwch Gyflogau**
**telir yr uwch gyflogau a ganlyn:**
- **Arweinydd**
- **Dirprwy Arweinydd**
- **8 aelod arall o'r Cabinet**
- **Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf**
- **Cadeiryddion Pwyllgorau**
  - **Pwyllgor Craffu (x3)**
  - **Pwyllgor Cynllunio**
  - **Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)**
  - **Pwyllgor Pensiynau**

- **Pennaeth dinesig (Cadeirydd y Cyngor)**
- **Dirprwy Bennaeth dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor**

2. **Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**
3. **Mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:-**
   **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi - Grŵp Plaid Cymru**
   **Pwyllgor Craffu Cymunedau - Grŵp Plaid Cymru**
   **Pwyllgor Craffu Gofal – Grŵp Annibynnol**

**10. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Gwahoddwyd y Cyngor i benodi cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer 2024/25.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am 2024/25.**

**11. ADOLYGIAD O DDATGANIAD O BOLISI DRAFFT – DEDDF TRWYDDEDU 2003**

Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn nodi ei bod yn ofynnol, yn unol ag Adran 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003, i bob awdurdod trwyddedu gyhoeddi datganiad o bolisi Trwyddedu pob 5 mlynedd, ac yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu drafft a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad, ac i ddirprwyo hawl i'r Pennaeth Adran wneud addasiadau golygyddol er sicrhau cywirdeb yn ôl yr angen.

Diolchwyd i staff yr Adran am eu gwaith caled.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu drafft, a dirprwyo hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd wneud addasiadau golygyddol er sicrhau cywirdeb yn ôl yr angen.**

**12. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Gwynfor Owen o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Mae Rheilffordd Arfordir y Cambrian o bwys aruthrol i economi Gwynedd, gyda miloedd o ymwelwyr yn ei defnyddio, ond yn bwysicach na hynny mae pobl Gwynedd eu hunain yn defnyddio y Rheilffordd yma yn ddyddiol er mwyn mynd i'r ysgol, i'r gwaith, i siopio neu ar gyfer pwrpasau hamdden.

Yn ddiweddar mae Trafnidiaeth Cymru wedi datgan eu bod eisiau torri y nifer o drenau sydd yn rhedeg ar y hyd y lein.

Y ffordd i wella'r defnydd o drenau yw trwy gynyddu'r nifer o drenau ac yn bendant dim eu torri.

Mae'r Cyngor yma yn datgan yn glir i Drafnidiaeth Cymru ac i Lywodraeth Cymru, sef perchnogion Trafnidiaeth Cymru, nad yw unrhyw doriad yn y nifer o drenau ar Reilffordd y Cambrian yn dderbyniol, ac yn hytrach y dylid edrych ar sut i gynyddu'r nifer o drenau trwy'r flwyddyn.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Bod y Cyngor unwaith eto'n trafod sut mae Gwynedd wledig yn cael ei thrin gan y sefydliadau sy'n gwneud penderfyniadau ar ein rhan, ac yn ein gwaedu'n araf o'n bodolaeth a'n troi i fod yn ddim byd mwy na Pharc Hamdden i Ymwelwyr.
- Fel un sy'n cynrychioli pentref Llanbedr ar y Cyngor, ei fod wedi blino clywed y neges bod rhaid i'w etholwyr roi'r gorau i ddefnyddio eu ceir, ac yn hytrach ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Hawdd dweud hynny os yn byw ar goridor yr M4 neu'r A55 efallai, ond rhywbeth sy'n amhosib' i'r sawl sy'n byw ar arfordir Orllewinol Gwynedd.
- Bod Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu cael gwared â 4 trên y dydd, gyda thrên olaf y dydd yn gadael Pwllheli am 17:42 rhwng Rhagfyr a Mawrth a 19:30 yn yr haf, a thrên olaf y dydd yn gadael Machynlleth am 19:04 yn y gaeaf a 20:55 yn yr haf.
- Bod ganddo gyfarfod yn fuan gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidaeth, Ken Skates, AS, i drafod Ffordd Osgoi Llanbedr, ac y byddai'n codi'r pwynt ynglŷn â threnau hefyd, gan ei fod ar ddeall bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cymeradwyo'r newidiadau eisoes.
- Y dymunai ddiolch i'r ddau Aelod Seneddol, Mabon ap Gwynfor a Liz Saville Roberts, a hefyd yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig, am ddatgan yn glir eu gwrthwynebiad llwyr i'r cynlluniau hyn.
- Pan gyfarfu Pwyllgor Rheilffordd Arfordirol y Cambrian ddiwethaf ar 22 Mawrth, ni soniwyd gair gan Drafnidiaeth Cymru am y posibilrwydd o dorri nifer y trenau, ac roedd Cadeirydd y Pwyllgor wedi cytuno i'w gais am gyfarfod brys o'r Pwyllgor i drafod y sefyllfa.
- Bod Trafnidiaeth Cymru yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. A wnaethpwyd asesiad o'r Gymraeg wrth wneud y newidiadau hyn? Roedd yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru, trwy Drafnidiaeth Cymru, yn troi ei chefn unwaith eto ar ein cadarnleoedd Cymraeg.
- Petai Cymru yn wlad annibynnol, gellid edrych ar beth sydd orau i ni yng Nghymru, a byddai arian Trafnidiaeth Cymru yn aros yng Nghymru yn hytrach na chael ei wario yn Lloegr ar brosiectau a elwir yn brosiectau Lloegr a Chymru.
- Bod Trafnidiaeth Cymru yn dweud eu bod wedi edrych ar ffigurau defnyddwyr y gwasanaeth, ond yn amlwg roedd Cofid a'r gwaith sylweddol ar yr isadeiledd wedi effeithio'n fawr ar y niferoedd dros y 3-4 blynedd ddiwethaf. Byddai gwasanaeth o safon, rheolaidd a dibynadwy yn sicr yn arwain at gynnydd yn nifer y teithwyr.

Mynegodd aelodau gefnogaeth frwd i'r cynnig. Nodwyd:-

- Gyda thoriadau i'r gwasanaethau bysiau eisoes, nad oedd Trafnidiaeth Integredig yn bodoli bellach yn y rhan hwn o Gymru.
- Bod trigolion yn gaeth i'w cartrefi heb fywyd cymdeithasol, ac yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i ennill bywoliaeth mewn rhai achosion.
- Y byddai'n fuddiol gallu gwe-ddarlledu cyfarfod arbennig Pwyllgor Rheilffordd Arfordirol y Cambrian ar 24 Mai fel y gall y cyhoedd weld yr hyn mae'r aelodau yn ceisio ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa.
- Nad oedd Llywodraeth Cymru yn deall beth mae byw mewn ardal wledig yn ei olygu ac y byddai cwtogi nifer y trenau yn cael effaith sylweddol ar economi a diwydiant twristiaeth yr ardal.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Mae Rheilffordd Arfordir y Cambrian o bwys aruthrol i economi Gwynedd, gyda miloedd o ymwelwyr yn ei defnyddio, ond yn bwysicach na hynny mae pobl Gwynedd eu hunain yn defnyddio y Rheilffordd yma yn ddyddiol er mwyn mynd i'r ysgol, i'r gwaith, i siopio neu ar gyfer pwrpasau hamdden.**

**Yn ddiweddar mae Trafnidiaeth Cymru wedi datgan eu bod eisiau torri y nifer o drenau sydd yn rhedeg ar y hyd y lein.**

**Y ffordd i wella'r defnydd o drenau yw trwy gynyddu'r nifer o drenau ac yn bendant dim eu torri.**

**Mae'r Cyngor yma yn datgan yn glir i Drafnidiaeth Cymru ac i Lywodraeth Cymru, sef perchnogion Trafnidiaeth Cymru, nad yw unrhyw doriad yn y nifer o drenau ar Reilffordd y Cambrian yn dderbyniol, ac yn hytrach y dylid edrych ar sut i gynyddu'r nifer o drenau trwy'r flwyddyn.**

(B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Mae Cyngor Gwynedd o'r farn na ddylai yr un tŷ fod yn ddim byd ond cartref hyd nes bod pob un â chartref clyd, addas a phwrpasol. Dyma yw amcan y Cyngor yma. Rydym ni yn galw ar Lywodraeth Cymru i alluogi y Cyngor hwn i weithredu er mwyn rhoi pobl Gwynedd gyntaf drwy fynd ati i greu Deddf Eiddo fydd yn cynnig fframwaith statudol a lleol i gefnogi cymunedau, darparwyr tai ac awdurdodau lleol i ymateb i'r argyfwng presennol

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Bod meddwl am y di-boblogi mawr fu yng nghefn gwlad dros y ganrif ddiwethaf yn codi pryder a hiraeth arno, a bod y di-boblogi hwnnw yn parhau.
- Bod Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran yr argyfwng tai, ac wedi cymryd camau cadarnhaol mewn ymgais i ddatrys y broblem enfawr sy'n wynebu ein cymunedau.
- Mai Deddf Eiddo yw'r cam naturiol nesaf er mwyn datrys yr argyfwng tai, gan y byddai deddf o'r fath yn cynnwys polisïau fydd yn rhoi cymunedau yn gyntaf, gan reoleiddio'r farchnad dai a sicrhau bod pobl leol yn cael cyfle teg i fyw yn eu cymunedau.
- Y byddai Deddf Eiddo hefyd yn pwysleisio ar fuddsoddi yn lleol a chreu cyfle i gymunedau gael cymorth i brynu asedau yn y gymuned, fel sy'n digwydd yn yr Alban.
- Y byddai'r Senedd yn trafod materion yn ymwneud â thai dros y misoedd nesaf ac roedd yn allweddol bod Deddf Eiddo yn cael ei derbyn fel rhan o amcanion y Llywodraeth.

Mynegodd aelodau gefnogaeth frwd i'r cynnig. Nodwyd:-

- Bod hyn yn rhan o'r un stori â'r cynnig blaenorol, sef sut mae sicrhau cymunedau iach a llewyrchus yng nghefn gwlad Cymru.
- Bod Deddf Eiddo yn rhywbeth cwbl sylfaenol. Heb bobl, ni ellir cael cymunedau; heb dai, ni ellir cael pobl i fyw yn y cymunedau hynny, a heb gymunedau ni fydd gennym economi yng nghefn gwlad.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ddiwygio brawddeg gyntaf y cynnig fel a ganlyn er mwyn gwneud y cynnig yn fwy penodol yn ddaearyddol:-

Mae Cyngor Gwynedd o'r farn na ddylai yr un tŷ fod yn ddim byd ond cartref hyd nes bod pob un *sydd ag angen lleol am dŷ* â chartref clyd, addas a phwrpasol.

Mynegwyd cefnogaeth i'r gwelliant ar y sail bod angen i ni edrych ar ôl ein pobl ein hunain.

Mynegodd aelod ei wrthwynebiad i'r gwelliant gan nad oedd yn diffinio '*pobl leol'* tra bod y cynnig gwreiddiol yn cynnwys pawb. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro na chredai fod geiriad y gwelliant yn amhriodol gan fod '*angen lleol*' yn derm cydnabyddedig ac mai cais am ddeddfwriaeth ydoedd yn ei hanfod.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe gariodd.

Yn ei sylwadau cloi, nododd y cynigydd mai ei bryder am y sefyllfa tai oedd un o'i brif resymau dros ddod yn gynghorydd, ac er bod y trafodaethau yn anodd, roedd yn bwysig bod pawb yn cydweithio er mwyn cael datrysiad i bobl Gwynedd, a hefyd pobl Cymru.

Gan i'r gwelliant gael ei dderbyn, eglurodd y Swyddog Monitro fod y cynnig gwreiddiol wedi'i addasu a bod angen pleidlais bellach gyda geiriad y gwelliant yn hytrach na'r geiriad gwreiddiol. Pleidleisiodd mwyafrif o blaid y cynnig.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Mae Cyngor Gwynedd o'r farn na ddylai yr un tŷ fod yn ddim byd ond cartref hyd nes bod pob un sydd ag angen lleol am dŷ â chartref clyd, addas a phwrpasol. Dyma yw amcan y Cyngor yma. Rydym ni yn galw ar Lywodraeth Cymru i alluogi y Cyngor hwn i weithredu er mwyn rhoi pobl Gwynedd gyntaf drwy fynd ati i greu Deddf Eiddo fydd yn cynnig fframwaith statudol a lleol i gefnogi cymunedau, darparwyr tai ac awdurdodau lleol i ymateb i'r argyfwng presennol.**

(C) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Llio Elenid Owen o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Mae'r penderfyniad gan Gydbwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a'r byrddau iechyd i gau canolfannau Ambiwlans Awyr Cymru Caernarfon (Dinas Dinlle) a'r Trallwng, a'u canoli, yn ergyd drom i Gwynedd gyfan ac yn esiampl arall o sut mae gwasanaethau canolog Cymru yn anwybyddu dyheadau a gofynion Cymru wledig. Rwy'n gofyn ar y Cyngor i wrthwynebu'r penderfyniad, a gofyn am ymyrraeth ac ymchwiliad llawn i'r penderfyniad gan Lywodraeth Cymru.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w chynnig, gan nodi:-

- Flwyddyn a hanner yn ôl, y bu i'r Cyngor bleidleisio yn unfrydol o blaid ei chynnig yn galw ar y cyrff perthnasol i gadw canolfannau Ambiwlans Awyr yn Ninas Dinlle a'r

Trallwng, ac adeiladu ar y gwasanaethau yn eu lleoliadau presennol, ond roedd y penderfyniad diweddar i gau'r canolfannau hynny yn siomedig a thorcalonnus, ac yn ergyd drom i Wynedd gyfan.

- Y daeth Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru, sy'n cynnwys pedwar Aelod Lleyg a saith Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Cymru, i benderfyniad mwyafrifol ddiwedd Ebrill i dderbyn argymhellion Adolygiad Gwasanaeth y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS), i uno canolfannau Ambiwlans Awyr Caernarfon a'r Trallwng ar safle newydd yng nghanol Gogledd Cymru, gyda'r union leoliad i'w benderfynu.
- Bod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Powys – y ddau ranbarth iechyd sydd yn benodol am gael eu heffeithio yn sgil y penderfyniadau - yn erbyn y penderfyniad, ond ni wrandawyd o gwbl ar angen na barn cyhoedd yr ardaloedd hyn ar y mater. Gan hynny, roedd yn ofynnol ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd a chynnal ymchwiliad llawn i'r penderfyniad.
- Bod yr argymhellion yn nodi y bydd y penderfyniad hwn yn galluogi mwy o bobl i elwa ar yr arbenigedd clinigol a gaiff ei ddarparu gan dimau'r gwasanaeth gofal critigol hwn a hefyd yn cynnwys darparu gwasanaeth pwrpasol ychwanegol ar y ffyrdd ar gyfer cymunedau gwledig. Fodd bynnag, fel roedd Aelodau Seneddol Gwynedd wedi nodi, roedd yna gwestiynau cwbl ganolog sydd heb eu hateb eto, yn enwedig o gwmpas y ddarpariaeth bwrpasol ychwanegol ar y ffyrdd, ac roedd y cyfan yn parhau yn gwbl amwys.
- Na chredid bod synnwyr o gwbl symud y canolfannau o Ddinas Dinlle a'r Trallwng, ar gyrion rhai o ardaloedd mwyaf pellgyrhaeddol a gwledig Cymru, a'u hail-leoli mewn ardal boblog ar gyrion yr A55 yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.
- Bod rhaid amlygu ein cefnogaeth a'n diolch ni, fel pobl leol, ac fel aelodau etholedig i elusen Ambiwlans Awyr Cymru, a thimau clinigol Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) GIG Cymru. Mae'r gwaith a'r gwasanaeth gwych maen nhw'n ei wneud er mwyn darparu gofal brys yn ein cymunedau yn hollol amhrisiadwy, ac mae elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn un o'r elusennau sydd agosaf at galonnau pobl.
- Y dymunai hefyd ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y broses ymgysylltu dros y misoedd diwethaf, a bod y gefnogaeth gref iawn yn lleol i gadw'r safleoedd hyn yn eu lleoliadau presennol yn amlwg yn ystod y broses ymgysylltu.

Mynegodd nifer o aelodau gefnogaeth frwd i'r cynnig. Nodwyd:-

- Ei bod yn rhy hawdd dweud y bydd y newidiadau yn arwain at well gwasanaeth, a bod rhaid mynnu'r dystiolaeth a'r manylion sy'n dangos hynny.
- Yr erfynnid ar yr holl aelodau i arwyddo a rhannu'r ddeiseb ar wefan Senedd Cymru yn galw am ymchwiliad cyhoeddus llawn i gau'r canolfannau yn Ninas Dinlle a'r Trallwng.

Yn ei sylwadau cloi, nododd y cynigydd bod y 3 chynnig gerbron y cyfarfod hwn o'r Cyngor yn ymwneud â'r cam mae ein hardaloedd gwledig yn gael gan y sefydliadau canolog, a phwysleisiodd bwysigrwydd parhau i gydweithio ac i ymgyrchu yn erbyn y penderfyniad i gau canolfannau ambiwlans awyr Dinas Dinlle a'r Trallwng.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Mae'r penderfyniad gan Gydbwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a'r byrddau iechyd i gau canolfannau Ambiwlans Awyr Cymru Caernarfon (Dinas Dinlle) a'r Trallwng, a'u canoli, yn ergyd drom i Gwynedd gyfan ac yn esiampl arall o sut mae gwasanaethau canolog Cymru yn anwybyddu dyheadau a gofynion Cymru wledig. Mae'r Cyngor hwn yn gwrthwynebu'r penderfyniad, ac yn gofyn am ymyrraeth ac ymchwiliad llawn i'r penderfyniad gan Lywodraeth Cymru.**

## 13. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybuddion o gynnig y Cynghorwyr Gruffydd Williams a Dewi Jones i gyfarfod 7 Mawrth, 2024 o'r Cyngor ynglŷn â chefnogaeth i ffermwyr.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 3.15yp.

______________________________

**CADEIRYDD**